Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru
Datganiad i'r Wasg
I'w ryddhau ar unwaith
02920 491818 | 07815 071164
www.neu.org.uk
www.Facebook.com/nationaleducationunion
www.Twitter.com/@NEUnion

9fed Tachwedd 2019

Athro cymwys o flaen pob dosbarth

Mae undeb addysg fwyaf Cymru gyda phryderon ynghylch y defnydd parhaus a chynyddol o gynorthwywyr addysgu, gan gynnwys Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) a goruchwylwyr cyflenwi yn cael eu defnyddio i ddysgu dosbarthiadau yn y tymor hir a thymor byr. Mae Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru yn deall bod llawer o ysgolion yn defnyddio pobl heb Statws Athro Cymwysedig (SAC) i ddysgu dosbarthiadau.

Dywedodd **David Evans**, Ysgrifennydd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru:

"Ni ddylai ysgolion yng Nghymru fod yn defnyddio athrawon heb gymhwyso, nid yw'n deg ar y plant a'r bobl ifanc ac nid yw'n deg ar y gweithwyr addysg proffesiynol, y gofynnir iddynt ddysgu gwers heb dderbyn yr hyfforddiant na'r cyflog priodol. Nid ydym eisiau bod yn gynnil gydag addysg yma yng Nghymru."

"Mae gan Benaethiaid a chyrff llywodraethol gyfrifoldeb clir i sicrhau nad yw staff cymorth yn cael eu hecsbloetio. Mae defnyddio athrawon cymwys yn ein hysgolion yn holl bwysig i'n haelodau. Rydym am i blant a phobl ifanc gael mynediad i'r addysg orau, a ddarperir gan athrawon cymwys ac a gefnogir gan staff cymorth sydd wedi'u hyfforddi'n dda."

GORFFEN

Roedd testun y cynnig i gynhadledd ar y mater hwn fel a ganlyn

Cynnig 9. Defnyddio Staff heb Gymhwyster

Mae Cynhadledd Cymru yn nodi gyda phryder y defnydd cynyddol o'n cydweithwyr addysgu cynorthwyol gan gynnwys Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) a goruchwylwyr cyflenwi i ddysgu dosbarthiadau yn y tymor hir a thymor byr. Mae Cynhadledd Cymru yn deall bod llawer o ysgolion yn defnyddio pobl heb Statws Athro Cymwysedig i ddysgu dosbarthiadau.

Mae Cynhadledd Cymru yn nodi, yn arolwg yr NEU yn 2019 o aelodau staff cymorth, bo 76% o aelodau sy'n ymgymryd â goruchwyliaeth cyflenwi wedi adrodd and oedd unrhyw wahaniaeth mewn meini prawf rhwng eu dyletswyddau a dyletswyddau athro cyflenwi. Ar ben hynny, dywedodd 73% o'r rhai sy'n gweithredu fel goruchwylwyr cyflenwi nad yw'n bosibl goruchwylio dosbarth yn eu hysgol heb gyflwyno'r wers eu hunain.

Cred Cynhadledd Cymru fod gan Benaethiaid a chyrff llywodraethol yn benodol gyfrifoldeb clir i sicrhau nad yw staff cymorth yn cael eu hecsbloetio, a dylent adolygu eu polisïau cyflenwi unigol i sicrhau mai dim ond yr aelodau hynny o staff sydd â chymwysterau priodol sy'n ymgymryd â gweithgareddau yn ôl y ddogfen *Rheolaeth effeithiol o bresenoldeb gweithlu ysgolion* 2017.

Cred Cynhadledd Cymru, oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, bod ysgolion yn defnyddio asiantaethau i gyflogi goruchwylwyr cyflenwi i ddysgu dosbarthiadau. Mae Cynhadledd Cymru hefyd yn credu, gyda dyfodiad Cytundeb Fframwaith Newydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, fod yr arfer hwn yn dod yn fwy cyffredin. Dim ond ar gyfer absenoldebau tymor byr y dylid defnyddio goruchwyliaeth cyflenwi. Efallai y bydd yr absenoldebau'n hysbys ymlaen llaw (er enghraifft, lle mae gan athro apwyntiad meddygol) neu'n annisgwyl (er enghraifft, absenoldeb oherwydd salwch). Ar gyfer absenoldebau hir dymor – e.e. absenoldeb salwch hir dymor neu famolaeth, dylai athro cymwys fod yn cyflenwi bob amser.

O ystyried y canllawiau uchod, mae Cynhadledd Cymru yn cyfarwyddo'r Adran Weithredol trwy Bwyllgor Cymru i:

1. Gyhoeddi canllawiau i holl aelodau'r NEU yng Nghymru ynghylch eu hawliau a'u cyfrifoldebau yn yr ystafell ddosbarth ynghylch pwy all ddysgu a phryd.

2. Atgoffa penaethiaid a chyrff llywodraethol y dylid cael athro cymwys ym mhob ystafell ddosbarth.

3. Sicrhau fod ein cydweithwyr sy'n staff cymorth yn ymwybodol o'r hyn y caniateir ac na chaniateir iddynt ei wneud yn unol â'r rheoliadau a nodir yn y ddogfen *Rheolaeth effeithiol o bresenoldeb gweithlu ysgolion* 2017, gan sicrhau eu bod yn gwybod bod ganddynt gefnogaeth yr undeb addysg fwyaf pe gofynnir iddynt i wneud rhywbeth y tu allan i'w cylch gwaith.

    1. Annog chwythu'r chwiban; mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi dweud wrthym dro ar ôl tro ei bod yn croesawu cael gwybod pan fydd canllawiau'n cael eu torri.

Diwygiad

i.) Ychwanegu pedwerydd paragraff newydd:

Mae Cynhadledd Cymru yn nodi gyda siom y digwyddiadau cynyddol o ddosbarthiadau meithrin sy'n cael eu harwain gan CALU yn hytrach nag athro cymwys. Er nad ydym am ddifrïo ein cydweithwyr sy'n CALU, mae Cynhadledd Cymru o'r farn bod gan bob plentyn mewn ysgol, waeth pa mor ifanc, yr hawl i gael ei ddysgu gan athro cymwysedig.

ii.) Mewnosod rhif 5 newydd:

2. Lobïo, ymgyrchu a negydu i sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud a maint dosbarth a rheoliadau trefnu staff yn cynnwys pob dosbarth meithrin ym mhob ysgol. Ni ellir eu hanwybyddu oherwydd eu bod o dan oedran ysgol statudol.

<u>Cysylltiadau'r wasg:</u>

Mae'r Undeb Addysg Genedlaethol yn gyfuniad o Gymdeithas yr Athrawon a Darlithwyr (ATL) ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT), a ffurfiwyd ar 1 Medi 2017. Gweler y manylion cyswllt isod am gymorth:

Cyswllt: Stuart Williams, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Tŷ Sinnott, 18 Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd CF24 5PJ. Ffôn: 029 20491818. Symudol: 07795 295 355.

e-bost: stuart.williams@neu.org.uk

<u>Nodyn i olygyddion:</u>

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn sefyll ar gyfer dyfodol addysg. Mae'n dod â lleisiau athrawon, darlithwyr, staff cefnogi ac arweinwyr sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau cynaledig ac annibynnol ynghyd i ffurfio'r undeb addysg fwyaf yng Nghymru.

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn gysylltiedig â Chyngres Undebau Llafur (TUC), Pwyllgor Undeb Llafur Ewrop ar gyfer Addysg (ETUCE) ac Addysg Ryngwladol (EI). Nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol ac mae'n ceisio gweithio'n adeiladol gyda'r holl brif bleidiau gwleidyddol.